# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 34(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(5 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Biliau Aelod

(5 munud)

**NDM6169** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 - Biliau Aelod' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2016; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 6 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6143**

Lee Waters (Llanelli)
Huw Irranca-Davies (Ogwr)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod manteision enfawr posibl cymhwyso 'data mawr' mewn amaethyddiaeth.

2. Yn nodi'r twf o ran ymchwil a datblygu mewn amaethyddiaeth fanwl fel ffordd o gynyddu cynnyrch, gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin a lleihau'r defnydd o gemegau niweidiol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth i roi Cymru ar y blaen o ran datblygiadau amaethyddiaeth fanwl.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6170** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod y diwydiant manwerthu yn cyflogi 130,000 o bobl yng Nghymru, ac yn gwneud cyfraniad allweddol i economi Cymru.

2. Yn nodi mai cyfradd y siopau gwag yng Nghymru yw 14 y cant, a bod y gyfradd a ragwelir o ran cau siopau yn uwch yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU dros y ddwy flynedd nesaf.

3. Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio mesurau arloesol a chefnogol i gynorthwyo busnesau wrth bontio i drefniadau ailbrisio Asiantaeth y Swyddfa Brisio, gan adael busnesau Cymru i wynebu ardrethi uchel, ynghyd â system o ad-daliadau dros dro, a phroses araf o apeliadau.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dileu ardrethi busnes ar gyfer pob busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a rhoi cymorth sy'n lleihau'n raddol i'r rhai sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000;

b) gweithredu ffordd ragweithiol o ddiwygio'r system ardrethi busnes hynafol mewn ffordd radical, a gwneud Cymru yn genedl flaengar o ran mynd i'r afael â'r angen i ddarparu amgylchedd busnes mwy cefnogol; ac

c) rhoi cap ar unwaith ar y lluosydd, a chynllun wedi'i amserlennu ar gyfer gostyngiad graddol mewn ardrethi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn ailddatgan annibyniaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn dilyn datganoli ardrethi annomestig i Gymru.

Yn nodi nad diben gwaith ailbrisio Asiantaeth y Swyddfa Brisio yw codi refeniw ychwanegol ac er bod rhai gwerthoedd ardrethol wedi cynyddu at ei gilydd maent wedi lleihau.

Yn nodi'r canlynol gan Lywodraeth Cymru:

a) penderfyniad i estyn y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar gyfer 2017-18, gan leihau'r dreth y mae 70,000 o fusnesau bach yng Nghymru yn ei thalu;

b) penderfyniad i sefydlu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn gynllun parhaol o 2018, gan roi sicrwydd i fusnesau bach y bydd y lleihad yn eu treth yn parhau;

c) ymrwymiad i adolygu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach er mwyn ei wneud yn gynllun symlach a thecach i fusnesau yng Nghymru;

d) penderfyniad i gyflwyno cynllun rhyddhad trosiannol gwerth £10 miliwn ym mis Ebrill 2017 er mwyn cynnig cymorth ychwanegol i fusnesau bach sy'n elwa ar y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ac y mae'r gwaith ailbrisio wedi effeithio arnynt.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ehangu'r cymorth pontio sydd ar gael i fusnesau bach y mae gwaith ailbrisio ardollau annomestig 2017 wedi effeithio arnynt;

b) dileu ardrethi busnes ar gyfer pob busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £10,000 y flwyddyn, a rhoi cymorth sy'n lleihau'n raddol i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o rhwng £10,000 ac £20,000;

c) eithrio pob busnes rhag talu unrhyw ardrethi yn ystod eu blwyddyn gyntaf o fasnachu, er mwyn annog dechrau busnesau newydd;

d) cyflwyno lluosydd hollt ar gyfer busnesau bach a mawr fel yn yr Alban a Lloegr; ac

e) archwilio disodli ardrethi busnes yn gyfan gwbl gan ffurfiau eraill o drethi nad ydynt yn rhwystro cyflogaeth, adfywio canol trefi a buddsoddi mewn gwaith a pheiriannau.

## 8 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6171** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y bwlch rhwng y gweithwyr a gaiff y cyflog uchaf a'r gweithwyr a gaiff y cyflog isaf yn awdurdodau lleol Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.

2. Yn nodi llwyddiant Plaid Cymru o ran gorfodi Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Ddeddf Democratiaeth Leol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad i gynnwys mesurau sydd wedi gwella tryloywder o ran sut y penderfynir ar gyflog uwch swyddogion drwy sefydlu panelau taliadau annibynnol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) deddfu i gyflwyno cyfres o gyfraddau, telerau ac amodau cyflog a gaiff eu penderfynu'n genedlaethol, i reoli cyflogau uwch swyddogion a phrif swyddogion drwy fframwaith cenedlaethol a fyddai'n sicrhau tegwch i bob gweithiwr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru; a

(b) diffinio rôl prif weithredwyr awdurdodau lleol mewn deddfwriaeth a fyddai'n cynnwys diddymu taliadau ychwanegol i swyddogion cynghorau ar gyfer dyletswyddau swyddog canlyniadau.

'Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi gofynion y Ddeddf Democratiaeth Leol, sy'n cynnwys mesurau sydd wedi gwella tryloywder o ran sut y penderfynir ar gyflog uwch-swyddogion drwy ehangu pwerau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 2, a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod cynigion y Ceidwadwyr Cymreig, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod cyfyngiad gorfodol ar gyflogau deiliaid swyddi uwch i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gorfodi uchafswm effeithiol ar gyflogau.

**Gwelliant 3.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried deddfwriaeth a gyflwynwyd yn awdurdodaethau eraill y Gymanwlad, sydd wedi corffori cyfrifoldebau prif weithredwyr llywodraeth leol yn y gyfraith, fel Adran 94 A o Ddeddf Llywodraeth Leol Awstralia 1989.

'[Australian Local Government Act 1989]'

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Ym mhwynt 3, dileu is-bwynt 3 (a) a rhoi yn ei le:

gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol a fyddai'n sicrhau cyflog teg i weithwyr y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru; a

**Gwelliant 5.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, pan alwodd rhanddeiliaid am gydberthyniad rhwng cyflog uwch reolwyr a pherfformiad y sefydliad, fel dangosydd allweddol o sicrhau gwerth am arian.

'Trawsgrifiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 13 Mai 2014'

**Gwelliant 6.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymhellach dystiolaeth y Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol i Ymchwiliad Pwyllgor Dethol Llywodraeth y DU ar Gymunedau a Llywodraeth Leol i Dâl Prif Swyddogion ym mis Ionawr 2014, a oedd yn cydnabod bod nifer o awdurdodau lleol wedi dechrau rhannu prif weithredwyr a thimau uwch reoli ers 2010 er mwyn gweithredu arbedion costau ymhellach.

'Local Authority Chief Executives and Senior Managers' submission to the UK Government's Communities and Local Government Select Committee Inquiry into Local Government Chief Officer Remuneration'

## 9 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6172** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod y tasglu canser annibynnol wedi galw am darged o 28 niwrnod ar gyfer diagnosis.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y buddsoddiad ychwanegol mewn cyfarpar diagnostig, a gafodd ei sicrhau gan Blaid Cymru yn nhrafodaethau'r gyllideb, yn helpu i gyrraedd y targed hwn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn nodi:

a) y pwyslais ar ganfod canser yn gynt fel y'i nodwyd yn y cynllun diwygiedig Cynllun Cyflawni Canser ar gyfer Cymru (2016-2020);

b) bod mwy o bobl nag erioed yn cael eu trin am ganser yng Nghymru a bod y cyfraddau goroesi yn uwch nag erioed o'r blaen; ac

c) y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y buddsoddiad ychwanegol mewn cyfarpar diagnostig a nodwyd yn y gyllideb ddrafft yn cael ei ddefnyddio i wella amseroedd aros a chanlyniadau triniaethau canser.

'Cynllun Cyflawni Canser ar gyfer Cymru 2016-2020'

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella mynediad at wasanaethau sgrinio ledled Cymru gyfan drwy gydnabod y rôl y mae gwasanaeth cenedlaethol symudol trin canser yn ei chwarae o ran cefnogi'r rhai sydd â chanser, ynghyd â lleihau atgyfeiriadau i ofal eilaidd drwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ddiagnostig mewn meddygfeydd.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6167** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Dyslecsia – Golwg gwahanol ar fywyd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 29 Tachwedd 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Tachwedd 2016 i'w hateb ar 23 Tachwedd 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

1. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd presennol cytundeb Prifddinas-Ranbarth Caerdydd? OAQ(5)0060(FLG)

2. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am ddyraniadau y gyllideb i'r portffolio iechyd, llesiant a chwaraeon? OAQ(5)0050(FLG)

3. Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithredu o ran llywodraeth leol yn y dyfodol? OAQ(5)0059(FLG)**R**

4. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gytundebau dinas? OAQ(5)0051(FLG)

5. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymhwyso Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ymwneud â phwerau awdurdodau lleol i fynd i gostau? OAQ(5)0056(FLG)

6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniad cyffredinol y gyllideb i'r portffolio addysg? OAQ(5)0065(FLG)

7. Lee Waters (Llanelli): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Bwrdd y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol ynghylch pa mor barod yw awdurdodau lleol i rannu arferion caffael? OAQ(5)0052(FLG)

8. David Rees (Aberafan): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith a gaiff yr ardoll brentisiaethau ar y grant bloc? OAQ(5)0058(FLG)

9. Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae cronfeydd strwythurol yr UE yn cynorthwyo busnesau a chyflogaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0064(FLG)

10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fesurau i leihau ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru? OAQ(5)0054(FLG)

11. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol i Dorfaen? OAQ(5)0063(FLG)

12. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ehangu'r cymorth pontio sydd ar gael i fusnesau bach y mae gwaith ailbrisio ardollau annomestig 2017 wedi effeithio arnynt? OAQ(5)0061(FLG)

13. David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gallai Llywodraeth Cymru gydweithio ag awdurdodau lleol i lunio atebion arloesol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(5)0053(FLG)

14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi ynghylch darparu gwasanaethau treth yn Gymraeg? OAQ(5)0062(FLG)**W**

15. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu ail nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(5)0057(FLG)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

1. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymhwyso Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yng Nghymru? OAQ(5)0055(ERA)

2. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i fynd i'r afael â chlymog Japan? OAQ(5)0056(ERA)

3. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli'r risg o lifogydd yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0054(ERA)

4. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith Brexit ar bolisi amgylcheddol yng Nghymru? OAQ(5)0064(ERA)**W**

5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo bwyd môr o Gymru? OAQ(5)066(ERA)**W**

6. Rhianon Passmore (Islwyn): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â throseddau tirwedd? OAQ(5)0062(ERA)

7. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am statws ecolegol dyfroedd mewnol a dyfroedd arfordir Cymru? OAQ(5)0063(ERA)

8. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi ynni yn y de-ddwyrain? OAQ(5)0053(ERA)

9. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio pecynnau bwyd polystyren yng Nghymru? OAQ(5)0067(ERA)

10. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i reoli llygredd aer? OAQ(5)0059(ERA)

11. Huw Irranca-Davies (Ogwr): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau COP22 i Gymru? OAQ(5)0057(ERA)

12. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol? OAQ(5)0058(ERA)

13. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i hwyluso mynediad i gefn gwlad Cymru? OAQ(5)0065(ERA)

14. David Rees (Aberafan): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo perchnogion tai yng Nghymru sy'n wynebu trafferthion o ganlyniad i gynlluniau arbed ynni? OAQ(5)0060(ERA)

15. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymgysylltu â ffermwyr yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0061(ERA)**R**

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Faint o ddamweiniau a gofnodwyd a ddigwyddodd ar ystâd y Cynulliad ers mis Mai 2011? OAQ(5)003(AC)